

Adalimumab i drin hidradenitis suppurativa cymedrol i ddifrifol

Mehefin 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir adalimumab (Humira) fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion â hidradenitis suppurativa gweithredol cymedrol i ddifrifol nad yw wedi ymateb i'r triniaethau drwy'r geg neu'r triniaethau mewnwythiennol arferol. Rhaid asesu'r cyflwr 12 wythnos ar ôl dechrau adalimumab, a dim ond os bydd y cyflwr yn ymateb y gellir parhau â'r driniaeth.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych hidradenitis suppurativa gweithredol cymedrol i ddifrifol, a bod eich meddyg yn credu mai adalimumab yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai adalimumab fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae hidradenitis suppurativa, neu acne inversa, yn gyflwr croen llidus gydol oes sy'n cael ei achosi gan ffoliglau blew wedi'u blocio sy'n gysylltiedig â chwarennau chwys. Mae cornwydydd neu grawniadau poenus yn datblygu mewn ardaloedd sydd â chwarennau chwys, fel y werddyr, y ffolennau, y bronnau a'r ceseiliau, a gallant achosi creithiau.

Mae adalimumab, sy'n cael ei chwistrellu o dan y croen, yn atal y system imiwnedd ac yn lleihau llid.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Ymddiriedolaeth Hidradenitis Suppurativa](#)
- [Changing faces](#), 0345 450 0275

- [Sefydliad Croen Prydain](#), 0207 391 6341

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1989-5